Annwyl Rhieni,

Mae'r Cyngor Siarter Iaith am gyflwyno gweithgaredd Testun Trafod.

Bob wythnos, ar Ddydd Gwener, bydd y testun trafod yn cael ei gyflwyno i'r disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned leol. Bydd hyn yn digwydd ar lafar yn y gwasanaeth a'r dosbarthiadau; ar wefan yr ysgol o dan y pennawd Siarter Iaith ac ar ein Trydar.

Gofynnwn i chi rieni cymryd 10 munud i drafod y testun dros y penwythnos hefo'ch plentyn i'w baratoi ar gyfer trafodaethau'r wythnos.

Bydd y testun yn ffocws trafod yr wythnos a hoffem ei glywed yn cael ei drafod yn yr ysgol ac amser chwarae rhwng disgyblion a'r athrawon, cymorthyddion, cogyddion, gofalwyr ayb. Yn ogystal i hyn, hoffem
glywed y testun yn cael ei thrafod tu allan i'r ysgol rhwng disgyblion, rhieni ac oedolion yn y gymuned.

Pwrpas y Testun trafod yw i godi hyder a mwynhad y disgyblion yn ei sgiliau llafaredd. Bydd y plant yn cael y cyfle i drafod hefo blant ac oedolion cyfarwydd gan gynnwys siarad o flaen cynulleidfa.

Mae datblygu safonau llafar y disgyblion yn rhan o'r Cynllun Datblygu Ysgol ac rydym yn awyddus fel Cyngor y Siarter Iaith i gyfrannu at hyn.

Diolch am eich cefnogaeth!

Cyngor y Siarter Iaith 2016-2017

"If a child can't say it, a child cant write it"